

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Awst 15fed 2018 am 7.30 o'r gloch.

Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 15th August 2018 at 7.30pm

1. Presennol/Present - Cynghorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd, *Chairperson*), Alwena Roberts, Hanna Elin Baguley, Barbara Williams, Myrddin Roberts, Cyng. Alun Roberts a Geraint Parry (Clerc/*Clerk*).

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Maldwyn Williams, Miriam Williams, Lewis Davies a Carwyn Jones

3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest

- Neb y datgan diddordeb / *Nobody declared an interest*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 fed o Orffennaf fel rhai cywir gan Barbara Williams, eiliwyd gan Hanna Elin Baguley / *Minutes of the previous meeting held on 18th July were accepted as accurate by Barbara Williams, seconded by Hanna Elin Baguley*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

5.1 **Diffibrilwyr/Defibrillator** – Cadeirydd Cwlwm Seiriol wedi archebu padiau ar gyfer y de-fib i Eglwys St Dona / *Chairperson of Cwlwm Seiriol has ordered pads for the de-fib for St Dona Church*

5.2 **Lôn Hafoty a lonydd lleol /Hafoty Road and local roads** - Nid oes unrhyw waith wedi digwydd hyd yn hyn. Cyng. M Roberts yn adrodd bod y ffordd ganol i Langoed wedi'i farcio ar gyfer gwaith a bod y manau pasio bellach wedi gordyfu. Hysbysodd Cyng. R Hughes fod problemau yn dal i barhau gyda dŵr yn rhedeg i'r pant ar y ffordd ger Rhos Ceuron dilyn cafodydd, dylai'r dŵr rhedeg i'r cae cyfagos. / *No work has taken place to date. Clr. M Roberts reported that the middle road to Langoed has been marked up for work and that the passing places are now overgrown. Clr. R Hughes informed that there is still problems with water running into the dip in the road at Rhos Ceuron following a rainfall, the water should run into the field nearby.*

5.3 **Chalet** - disgwyl gwybodaeth gan Cyng. L Davies. Perchnogion wedi datblygu'r eiddo heb ganitad / *Awaiting further information from Clr. L Davies. Owners have developed the property without permission.*

5.4 **Y Dorlan** – mae preswlydd cyfagos yn cynnal yr ardal yma. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach ar y mater hwn. / *Nearby resident is maintaining this area. It was decided to research further on this matter.*

5.5 **Coeden rhwng Pant Owen a Llygaid y Gwynt** - Cyng. Maldwyn Williams i gael dyfynbris. / *Tree between Pant Owen and Llygaid y Gwynt - Clr. Maldwyn Williams to obtain quote.*

5.6 **Cae Chwarae Plant** - angen trafod yr hen ddogfennau / *Children's Playing Field - need to discuss the old documents.*

5.7 **Cerrig ger Tre Gof** - mae'r perchennog wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned gynnig ateb i barcio ger Tre Gof. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unol â'n hegwyddor o beidio cael cerrig ar dir comin, a hefyd oherwydd nad oes hanes problem parcio ger Tre Gof, ein bod yn symud y cerrig. Pe bai'r mater parcio tu allan i Tre Gof yn dod yn broblem yn y dyfodol, yna byddwn yn mynd ar afael a'r mater wrth iddo godi / *The owner has requested that the Community Council offer a solution to parking by Tre Gof. Following discussion, it was decided in keeping with our principal of not having stones as such on common land and that there is no previous history of parking problems by Tre Gof, that we remove the stones. Should the matter of parking outside Tre Gof become a problem, then we will address the issue as it arises.*

5.8 **Ailwampio'r pwmp** - Cyng. R Hughes i ofyn a fyddai gan gontractwr lleol ddiddordeb yn y gwaith / *Refurbish the pump - Clr R Hughes to ask if a local contractor would be interested in the work.*

5.9 **Oherwydd y nifer of carafannau mawr yn mynd yn sownd wrth fynd lawr y lonydd cul i'r traeth, disgwyl i'r Cyngor Sir godi arwyddion "Anaddas i gerbydau mawr"** / *Due to the number of large caravanettes getting stuck going down the narrow lanes to the beach, awaiting for the County Council to erect the signs "Unsuitable for large vehicles"*

5.10 **Cŵn yn baeddu ar y traeth ac o gyloch y pentref** - dywedodd Clerc nad oes mwy o finiau cŵn ar gael, gellir rhoi gwastraff cŵn mewn biniau cartref. Cyngor Sir wedi cytuno i ddarparu arwyddion

ychwanegol / *Dog Fouling on the beach and around the village - Clerk reported that there are no more dog bins available, dog waste can be put into household bins. County Council has agreed to supply additional signs.*

- 5.11 Llwybr cyhoeddus rhwng Tan y Graig a Pen Cefn nawr wedi ei dorri. Bydd y contractwr yn dychwelyd i dorri llwybr troed Tan y Fynwent / *Public footpath between Tan y Graig a Pen Cefn has been cut. Contractor to return to cut Tan y Fynwent footpath.*
- 5.12 O ran y garreg tu allan i Bodlondeb, Cyngor Sir wedi cytuno i godi arwydd "Lôn y Capel" / *Regarding the stone outside Bodlondeb - County Council have agreed to erect a sign "Lôn y Capel"*
- 5.13 Fynwent y Plwyf – angen trwsio'r tap / *Community Cemetry – need to repair the tap*
- 5.14 Tipio anghyfreithlon ger mynediad i gae Bodfedda - Clerc wedi adrodd y mater i Adran Wast / *Fly Tipping on the access to Bodfedda field - Clerk has reported the issue to the County Council Waste Department*

6. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir / Report by the County Councillor

- Yn dilyn yr ymgynghoriad i gau Ysgol Biwmares, cynhaliwyd cyfarfod lleol a chafodd deiseb o dros 5,000 o lofnodion ei anfon at Lywodraeth Cymru sy'n eu gorfodi i drafod y mater. Rwyf wedi adrodd yn lleol fod hyn yn achosi risg i Ysgol Llangoed gyda ffigurau amcangyfrifed yn awgrymu mai dim ond 45 o blant fydd yn mynychu'r ym 2023. Nid yw'r neges gan Lywodraeth Cymru yn glir ynghylch ysgolion gwledig. / *Following the consultation to close Beaumaris School, a local meeting has taken place and a petition of over 5,000 signatures has been sent to the Welsh Government, which will force them to discuss the matter. I have reported locally that this poses a risk to Llangoed School with estimated figures suggesting that only 45 pupils will be attending in 2023. The message from Welsh Government is not clear regarding country schools.*
- Cafwyd trafodaeth ynglŷn â faint o Gartrefi Fforddiadwy yn Ward Seiriol - i ymchwilio ymhellach / *Discussion took place regarding the amount of Affordable Homes in the Seiriol Ward - to be investigate further.*

7. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 22C241 – Ysgubor Wen, Llanddona – cymeradwyaeth blaenorol ar gyfer codi Is-orsedd trydan ar dir gyferbyn - dim gwrthwynebiad / *Prior approval for the erection of an electricity sub-station on land opposite - no objection*
- 22C240 – Bryniau Mawr, Llanddona – cais llawn ar gyfer adeiladu mynedfa amaethyddol newydd ar dir - dim gwrthwynebiad / *Full application for the construction of a new agricultural access on land – no objection*
- Nodwyd nad ydym wedi derbyn cais cynllunio 22C32B/FR/SCR ar gyfer Pentrans, Llanddona / *It was noted that we have not received planning applications 22C32B/FR/SCR for Pentrans, Llanddona*

8. Hen Ysgol / Old School

8.1 Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus ar 20/07/18 yn Neuadd y Pentre, penderfynwyd yn unfrydol i werthu'r Neuadd. Mae gwerthu'r hen Ysgol bellach wedi'i gwblhau. Pwyllgor nawr i drafod y gwaith ar yr Ysgol gyda'r contractwr lle disgwylir iddo gymryd tua 12 wythnos. / *Following the public meeting on the 20/07/18 at the Village Hall, it was unanimously decided to sell the Hall. The sale of the old school is now complete. Committee now to discuss the work on the School with the contractor which is expected to take around 12 weeks*

9. Tir Comin / Common Land

- 9.1 Difrod i dir Comin y Rhos gan gwmni Hogan - dim newyddion pellach. / *Damage to Rhos Common Land - by Hogans, no further information.*
- 9.2 Rhos Llaniestyn - difrod i dir comin - mae H Kehoe wedi cytuno i gyfarfod i thrafod a chynghori ar y difrod / *Rhos Llaniestyn - damage to common land - H Kehoe has agreed to meet up to discuss and advise on the damage*
- 9.3 Mae rowlio rhedyn gyda cheffyl wedi digwydd ar dir comin y Rhos. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi gwell syniad i'r prosiect Cwlwm Seiriol o sut i ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol. Cododd preswyllydd lleol bryder na chawsant eu hymgynghori am y gwaith / *Bracken rolling with a horse has taken place on the common land Rhos. This work has given the Cwlwm Seiriol project a better indication of how to progress this work in future. A local resident raised concern that they were not consulted about the work.*
- 9.4 Adroddwyd bod Dwr Cymru wedi gwneud gwaith ar dir Comin y Rhos heb ymgynghori a'r Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu â Dwr Cymru a thrafod unrhyw fudd-dal / *It was reported that*

Welsh Water has carried out work on the common land without consulting the Community Council. Clerk to contact Welsh Water and discuss any benefit in kind.

9.5 *Hawddfaint ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - Clerk i ddilyn y mater gyda'n cyfreithiwr / Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben - Clerk to follow up the matter with our Solicitor*

10. Cyfrifon / Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Cyngor Cymuned Llangoed a Penmon / *Llangoed and Penmon Community Council - £42.00*

Incwm / Income

- Wayleave - £50.91
- VAT - £236.60

11. Gohebiaeth / Correspondence

- E-bost / e-mail – Tre Gof
- E-bost / e-mail – S Hunt
- E-bost / e-mail – IRP

12. UFA/AOB:

12.1 *Cododd y cwestiwn ynglŷn â chael cyfarfodydd ym mis Awst? / Question arose regarding having meetings in August?*

12.2 *Clerc i ddosbarthu'r canllawiau sy'n ymwneud a'r Mynwent Gymunedol / Clerk to circulate the guidance relating to the Community Cemetery*

12.3 *Safon strimio yn yr Eglwysi - Clerc i drafod y mater gyda'r contractwr / Standard of the strimming in the Churches. Clerk to discuss the matter with the contractor.*

12.4 *Cytunwyd i dalu hanner y costau aelodaeth y Clerc i gorf SLCC / It was agreed to pay half the costs of the Clerk membership to SLCC*

12.5 *Esboniodd y Clerc y briff ar gyfer contractwyr allanol sy'n gweithio ar brosiect Cwlwm Seiriol. Maent nawr wedi penodi 2 gontractwr i wneud gwaith ar dir comin yn y pentref - Harding a Kehoe. Gwaith i ddechrau mis Medi a'i gwblhau tua chanol mis Hydref / Clerk explained the brief for external contractors working on the Cwlwm project. They have appointed 2 contractors to carry out work on common land in the village - Harding and Kehoe. Work to start beginning of September and to be completed by mid October*

12.6 *Eglurodd y Clerc y canfyddiadau a'r argymhellion amlinellol yn dilyn yr adolygiad IRP ar Gynghorau Cymuned a Thref. Clerc wedi anfon y linc ymlaen. / Clerk explained the outline findings and recommendations following the IRP review on Community and Town Councils. Clerk has forwarded the link.*

13. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:45 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 19/09/18 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:45pm. Next meeting to be held on 19/09/18 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Gadeirydd -

Dyddiad